I Sylw: Dr Sarah Jones, Uwch Gynghorwr Iechyd Amgylcheddol

Llywodraeth Cymru

General Medical Council

# Ymateb y Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC) i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Drwyddedu Mandadol Triniaethau Arbennig yng Nghymru

Diolch am eich gwahoddiad i wneud sylw ar ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar gyflwyno trwyddedu gorfodol triniaethau arbennig yng Nghymru, ac yn benodol i ddarparu ein safbwyntiau ar yr elfen ganlynol o'r cynnig: Unigolion a Eithrir a amlinellir yn Adran 60 Deddf Iechyd Cyhoeddus (Cymru) 2017 ac a drafodir ar dudalen 27 eich dogfen ymgynghori.

Rydym yn cydnabod mai bwriad Llywodraeth Cymru yw na ddylai ein gweithwyr cofrestredig gael eithriad cyffredinol ar gyfer pob un o'r pedair triniaeth arbennig. Rydym hefyd yn cydnabod mai'r bwriad yw i'r eithriadau a amlinellir yn y rheoliad ystyried yr ymarferion a ymgymerir gan ein gweithwyr cofrestredig, ac y dylai unrhyw driniaeth a enwir fod o fewn maes arbenigedd y gweithiwr cofrestredig hwnnw a chael ei ystyried 'o fewn cwmpas' ac felly'n ddarostyngedig i indemniad.

Nodwn eich bod wedi gofyn inni wneud sylw ar y mater hwn, yn ogystal ag yn benodol a allai ein gweithwyr cofrestredig berfformio unrhyw un o'r triniaethau arbennig a enwir yn ddiogel heb drwydded.

## Perfformiad o unrhyw un o'r triniaethau arbennig a enwir heb drwydded

Bydd y GMC yn gyfrifol am reoleiddio Cymdeithion Anesthesia (AAau) a Chymdeithion Meddygol (PAau) yn y dyfodol (disgwylir ar hyn o bryd i hyn fod o ddiwedd 2024). Gan fod yr ymgynghoriad yn rhestru'r rheoleiddiwr proffesiynau ym mharagraff 7.1(a)-(ga), yn hytrach na'r proffesiynau penodol mae'r cyrff hynny'n eu rheoli, rydym wedi ystyried yr ymgynghoriad i fod yn cynnwys meddygon ac AAau a PAau yn cael eu heithrio o'r drwydded triniaethau arbennig lle maen nhw'n ateb y meini prawf. Rydym wedi cymryd hyn i ystyriaeth o fewn ein hymateb mor bell ag y mae'n ymarferol o ystyried nad ydym yn rheoleiddio'r proffesiynau hyn ar hyn o bryd. Mae'n werth egluro hefyd fod y drwydded i ymarfer yn ofyniad i feddygon ymarfer yn y DU. Fodd bynnag ni fydd yn ofynnol i AAau a PAau ddal trwydded yn ogystal â'u cofrestriad â ni. Felly, pan fyddwn yn siarad am drwyddedau i ymarfer, rydym yn cyfeirio at feddygon yn unig.

Mae'r Ddeddf Feddygol yn amlinellu nifer o 'freintiau ymarferwyr cofrestredig' (Rhan 6, adrannau 46 i 48 yn gynhwysol), ac mae'n amlinellu gweithgareddau eraill hefyd, y mae'n rhaid i feddyg ddal trwydded i'w hymarfer er mwyn ymgymryd â'r gweithgaredd hwn o fewn y DU. Yn ogystal



Mae'r GMC yn elusen gofrestredig yn Lloegr ac yng Nghymru (1089278) a'r Alban (SC037750).

â'r Ddeddf Feddygol, mae llawer o ddarnau eraill o ddeddfwriaeth sy'n amlinellu pan fydd rhaid i feddyg ddal trwydded; bydd y ddeddfwriaeth o dan ystyriaeth yn enghraifft arall o hyn.

Mae meddygon yn y DU yn ymgymryd ag amrediad eang o weithgareddau, ac mae nifer sylweddol o ddarnau o ddeddfwriaeth nad ydym yn berchen arnynt sy'n pennu pryd mae'n rhaid i feddyg ddal trwydded i ymarfer. Mae hyn yn golygu nad ydym yn gallu darparu cyngor ar rolau penodol ac a yw rolau neu weithgareddau yn gyfyngedig i weithwyr meddygol proffesiynol, ac felly nid ydym yn gallu cadarnhau a allai meddygon berfformio unrhyw un o'r triniaethau arbennig a enwir yn ddiogel heb drwydded. Mae'r cyfrifoldeb ar y gweithiwr proffesiynol i gadw'n wybodus am ac i ddilyn y gyfraith, ein canllawiau, a rheoliadau eraill sy'n berthnasol i'w gwaith. Cyfrifoldeb y gweithiwr proffesiynol yw sicrhau eu bod yn cydymffurfio ag unrhyw ddeddfwriaeth sy'n gofyn iddynt ddal trwydded ar gyfer y gwaith mae nhw yn ei wneud. Cynghorir meddygon i drafod eu hangen i ddal trwydded i ymarfer ag eraill a all eu cynghori os ydynt yn ansicr. Gallai hyn gynnwys: eu cyflogwr, eu sefydliad amddiffyn meddygol, darparwr eu hyswiriant a'u hindemniad, a/neu eu Coleg neu Gyfadran Frenhinol.

Rydym wedi cynhyrchu rhestr o bwyntiau trafod ynghylch a oes angen trwydded ar feddyg i ymarfer ar gyfer y gwaith mae'n ymgymryd ag ef a all fod o fudd yn eich hystyriaethau. Cafodd ei gynhyrchu ar gyfer meddygon, cyflogwyr, darparwyr gofal iechyd a sefydliadau sy'n contractio â meddygon. Pwrpas y ddogfen hon yw cefnogi trafodaethau ynghylch a oes angen trwydded ar feddyg i ymarfer ar gyfer y gwaith mae'n ymgymryd ag ef.

# Ymateb GMC i adran saith yr ymgynghoriad

Gweler ein hymateb i gwestiynau ymgynghoriad 8 a 10 isod. Nid ydym wedi ymateb i gwestiynau 9, 11 a 12 gan eu bod yn eistedd y tu allan i'n cylch gorchwyl rheoleiddiol.

## Cwestiwn 8 - Ydych chi'n cytuno ag egwyddor y cynnig hwn y dylai rheoliadau gael eu gwneud i gyfyngu'r eithriadau ar aelodau o'r cyrff proffesiynol a restrir yn adran 60?

Rydym yn cytuno y dylai fod cyfyngiadau ar yr eithriadau i'n gweithwyr cofrestredig. Amlinellir ein rhesymeg isod. Rydym yn credu bod yr eithriad o fudd i osgoi baich lle mae gweithiwr proffesiynol yn cael ei reoleiddio eisoes, ac i atal gweithgareddau mae meddyg yn ymgymryd â nhw rhag cael eu gwahardd. Mae hyn yn arbennig o wir o ystyried y gallu i'r ddeddfwriaeth hon gael ei hehangu yn y dyfodol i gwmpasu triniaethau eraill yn ôl y gofyn. Fodd bynnag rydym yn cefnogi'r cyfyngiadau ar yr eithriad hwn yn angenrheidiol i sicrhau diogelu cleifion yn effeithiol.

Gan fod cofrestru â'r GMC yn cwmpasu gweithwyr proffesiynol yn ymgymryd ag amrediad eang o weithgareddau, rydym yn meddwl ei bod yn bwysig i fanylu ar y cyfyngiadau; nid yw bod yn



Classified - General

gofrestredig â'r GMC yn golygu bod gweithiwr cofrestredig yn gymwys a diogel i ymgymryd â phob triniaeth feddygol.

Mae cymhwyster proffesiynol unigolyn i ymgymryd â gweithgareddau yn dibynnu ar amrediad o ffactorau, gan gynnwys: yr hyfforddiant penodol maent wedi ei gael, y rôl benodol maent yn ymgymryd â hi, a'r lleoliad(au) maent yn gweithio ynddo/ynddynt. Yn y cyd-destun hwn rydym yn cytuno bod cyfyngiadau ar yr eithriad i feddygon ddal trwydded triniaeth arbennig. Rydym yn cytuno hefyd y dylai'r eithriad fod yn gymwys ddim ond lle mae'r driniaeth arbennig yn syrthio o fewn maes arbenigedd y gweithiwr proffesiynol a lle maent yn gymwys i ymgymryd â'r fath driniaeth.

Rydym yn awgrymu egluro yn y ddeddfwriaeth bod rhaid i unigolion a eithrir ddatgan y gwaith hwn, yn ôl y gofyn, i'r corff rheoleiddiol perthnasol. Er enghraifft, byddai gofyn i feddygon ddatgan hyn fel rhan o'u cwmpas ymarfer ar gyfer ailddilysu, fel y byddai AAau a PAau yn dilyn rheoleiddiad. Mae hyn yn bwysig i sicrhau diogelwch cleifion o ystyried bod yr eithriad yn seiliedig ar y gweithgaredd yn bod yn rhan o ymarfer meddygol yr unigolyn ac yn rhinwedd eu rheoleiddio gan y GMC. O ystyried bod gan lawer o feddygon yrfaoedd portffolio, mae ein rheoleiddio o feddygon yn dibynnu'n rhannol ar y gofyniad iddynt ddatgan eu cwmpas cyfan o ymarfer trwy ailddilysu, i sicrhau y gall gwybodaeth am eu cwmpas ymarfer cyfan gael ei rhannu.

## Cwestiwn 10 - A yw'r egwyddorion eithrio hyn ar gyfer unigolion ac adeiladau yn amddiffyn iechyd a diogelwch y cleient yn ddigonol?

Rydym yn cytuno â'r safbwynt a osodir o dan baragraff 7.3 yr ymgynghoriad, na fyddai gweithwyr cofrestredig cyrff rheoleiddiol a restrir yn dal eithriad cyffredinol, ac â'r terfynau a osodir o fewn y pedwar pwynt bwled.

Er mwyn i'r egwyddorion eithrio ar gyfer unigolion ac adeiladau amddiffyn iechyd a diogelwch y cleient yn ddigonol, rydym yn cynnig yr eglurhadau neu welliannau canlynol:

- *' Rhaid i'r unigolyn fod wedi'i gofrestru â chorff proffesiynol mandadol cymwys a reoleiddir.*
  - Rydym yn awgrymu bod geiriad y pwynt hwn yn cael ei ddiwygio i: 'Mae'n rhaid i'r unigolyn fod yn gofrestredig, a dal trwydded yn ôl y gofyn, â chorff proffesiynol mandadol cymwys a reoleiddir.'
  - Mae'r geiriad diwygiedig yn cyfrif am y ffaith, yn achos meddygon sy'n gofrestredig â'r GMC, nad yw bod yn gofrestredig â ni ar ei ben ei hun yn ddigon. Lle mae'r gweithgaredd yn golygu ymarfer meddygol, mae'n rhaid iddynt hefyd ddal trwydded i ymarfer os yw'r meddyg wedi pennu bod hyn yn ofynnol ar gyfer y gwaith maen nhw'n ei wneud.



Classified - General

- *'Bod y driniaeth arbennig o fewn eu maes arbenigol ac yn cael ei hystyried 'o fewn y cwmpas', ac felly wedi'i indemnio gan y sefydliad y maent yn gweithio iddo, neu drwy hunanindemniad os ydynt yn hunangyflogedig'*
    - Nodwn grybwyll 'hyfforddiant' ym mharagraff 7.2, ond mae hynny ar goll o eiriad yr egwyddor eithrio hon.
    - Rydym yn awgrymu ei bod yn angenrheidiol i'r egwyddor eithrio ofyn yn benodol iawn: bod gan yr unigolyn sy'n ymgymryd â'r driniaeth arbennig yr hyfforddiant gofynnol ar ei chyfer; y driniaeth arbenigol i eistedd o fewn eu maes arbenigol (maes arbenigedd); a bod rhaid i'r unigolyn fod yn gymwys i'w berfformio.
- *'Bod y driniaeth arbenig yn cael ei rhoi o fewn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, neu wasanaeth gofal iechyd a reoleiddir yn breifat, a reoleiddir gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)'*
    - Ar y ddealltwriaeth bod yn rhaid bodloni bob un o'r pedwar gofyniad er mwyn i'r eithriad fod yn gymwys, rydym yn fodlon bod hyn yn ddigonol.
    - Mae'r ddealltwriaeth hon ymhellach i baragraff 7.5 y ddogfen ymgynghori - sy'n egluro bod lleoliadau y gallai'r gweithgareddau hyn gael eu hymgymryd ynddynt nad ydynt yn cael eu rheoleiddio gan AGIC, ac na fyddai ymgymryd â'r gweithdrefnau hyn yn y lleoliadau hyn yn gwarantu eithriad, hyd yn oed lle mae gweithiwr proffesiynol yn gofrestredig (ac yn drwyddedig yn ôl y gofyn) â ni ac mae'r gweithgaredd yn syrthio o fewn eu cwmpas arbenigedd a chymhwyster.
- *'Os bydd yr unigolyn yn peidio â bod yn gofrestredig am unrhyw reswm, bydd ei esemptiad yn dod i ben, a bydd yn rhaid iddo gael trwydded triniaeth arbennig os yw am barhau i roi'r driniaeth arbennig honno.'*
    - Rydym yn awgrymu bod geiriad y pwynt hwn yn cael ei ddiwygio i : 'Os yw'r unigolyn yn peidio â bod yn gofrestredig ac yn drwyddedig lle bo gofyn, byddai ei eithriad yn dod i ben, a byddai'n rhaid iddynt gael trwydded triniaeth arbennig pe byddent yn dal i ddymuno rhoi'r driniaeth arbennig honno.'
    - Mae'r rhesymeg dros y newid hwn yn unol â'r rhesymeg am y newid i fwled un.



Classified - General